## Casglu data Cymwysterau Galwedigaethol: Yr amserlen fwriadedig

| | |
|---|---|
| **Mehefin 2018** | • Rhannu cynlluniau a'r amserlen ar gyfer casglu data Cymwysterau Galwedigaethol â Chyrff Dyfarnu.<br>• Defnyddio cofrestr Ofqual er mwyn llunio rhestr gychwynnol o gymwysterau 'eraill a reoleiddir' ar gyfer Cyrff Dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru.<br>• Ymgysylltu â Chyrff Dyfarnu i gychwyn ar y gwaith ynghyd â grŵp o gynrychiolwyr o gyrff dyfarnu (tua 15). Bydd y Cyrff Dyfarnu hyn yn cymryd rhan mewn prawf casglu data cychwynnol.<br>• Rhestr ddrafft o gymwysterau 'eraill a reoleiddir' i fod ar gael ar gyfer Cyrff Dyfarnu yn y grŵp ffocws i'w gwirio.<br>• Anfon canllawiau ar gyfer gwirio rhestr cymwysterau 'eraill a reoleiddir' i Gyrff Dyfarnu. |
| **Gorffennaf 2018** | • Cydweithio â grŵp ffocws Cyrff Dyfarnu. |
| **Awst 2018** | • Gwaith parhaus â grŵp ffocws Cyrff Dyfarnu.<br>• Rhaid i'r holl Gyrff Dyfarnu sy'n weddill gael mynediad at restr ddrafft o gymwysterau 'eraill a reoleiddir' i'w gwirio. |
| **Medi 2018** | • Y dyddiad cau i'r grŵp ffocws ddychwelyd rhestr o gymwysterau 'eraill a reoleiddir' a adolygwyd (canol/diwedd mis Medi). |
| **Hydref 2018** | • Treialu'r gwaith o gasglu data Cymwysterau Galwedigaethol Chwarter 3 (Gorffennaf-Medi 2018) gyda grŵp ffocws y Cyrff Dyfarnu, gan ddefnyddio templedi a ragboblogwyd. |
| **Tachwedd 2018** | • Adolygu'r broses o dreialu'r gwaith o gasglu data gyda grŵp ffocws y Cyrff Dyfarnu a'i diwygio os bydd angen.<br>• Y dyddiad cau i'r Cyrff Dyfarnu ddychwelyd rhestr o gymwysterau 'eraill a reoleiddir' a adolygwyd.<br>• Rhannu'r canllawiau ar gyfer y cyflwyniad ym mis Ionawr â'r holl Gyrff Dyfarnu. |
| **Rhagfyr 2018** | |
| **Ionawr 2019** | • Cynllun peilot i gasglu data Cymwysterau Galwedigaethol Chwarter 4 (Hydref-Rhagfyr 2018) yng Nghymru gan ddefnyddio templedi a ragboblogwyd. Bydd hyn yn cynnwys yr holl Gyrff Dyfarnu. Caiff y cynllun peilot hwn i gasglu data ei gynnal yn yr un modd ag Ofqual.<br>• Rhoi hysbysiad am gasglu'r data ym mis Ebrill 2019. Rhannu'r canllawiau ar gyfer y cyflwyniad â'r holl Gyrff Dyfarnu. |

| | |
|---|---|
| **Chwefror 2019** | • Adolygu'r cynllun peilot llawn a gwneud unrhyw ddiweddariadau sydd eu hangen i'r rhestr o gymwysterau 'eraill a reoleiddir'.<br>• Gwneud y rhestr o gymwysterau 'eraill a reoleiddir' yn fyw ac yn addas i'r Cyrff Dyfarnu ei chynnal. |
| **Mawrth 2019** | |
| **Ebrill 2019** | • Cymwysterau Cymru yn casglu data Cymwysterau Galwedigaethol Chwarter 1 (Ionawr-Mawrth 2019) ar gyfer Cymru gan ddefnyddio templedi a ragboblogwyd. |